Arolygiaeth Ei Fawrhydi dros Addysg a Hyfforddiant yng Nghymru
His Majesty's Inspectorate for Education and Training in Wales

# Adroddiad ar

# Ysgol Gynradd Beddgelert

**Beddgelert**
**Gwynedd**
**LL55 4UY**

**Dyddiad yr arolygiad: Tachwedd 2023**

**gan**

**Estyn, Arolygiaeth Ei Fawrhydi dros Addysg**

**a Hyfforddiant yng Nghymru**

# Ynglŷn ag Ysgol Gynradd Beddgelert

| | |
|---|---|
| Enw'r darparwr | Ysgol Gynradd Beddgelert |
| Awdurdod lleol | Cyngor Gwynedd |
| Iaith y darparwr | Cymraeg |
| Math o ysgol | Cynradd |
| Cymeriad crefyddol | |
| Nifer y disgyblion ar y gofrestr | 31 |
| Nifer y disgyblion o oedran ysgol statudol | 21 |
| Nifer mewn dosbarthiadau meithrin (os yw'n berthnasol) | * |
| Canran y disgyblion sy'n gymwys i gael prydau ysgol am ddim dros gyfartaledd o dair blynedd (Canran genedlaethol y disgyblion sy'n gymwys i gael prydau ysgol am ddim dros gyfartaledd o dair blynedd yn y sector Cynradd yw 23.0%) | 13.8% |
| Canran y disgyblion y nodwyd bod ganddynt anghenion dysgu ychwanegol (a) (Canran genedlaethol y disgyblion y nodwyd bod ganddynt anghenion dysgu ychwanegol yn y sector Cynradd yw 16.1%) | * |
| Canran y disgyblion sy'n siarad Cymraeg ar yr aelwyd | 47.6% |
| Canran y disgyblion sy'n siarad Saesneg fel iaith ychwanegol | 0.0% |
| Dyddiad penodi'r pennaeth | 02/04/2018 |
| Dyddiad yr arolygiad blaenorol gan Estyn (os yw'n berthnasol) | |
| Dyddiad dechrau'r arolygiad | 13/11/2023 |

Daw'r data hwn o ddata mwyaf diweddar y Cyfrifiad Ysgol Blynyddol ar Lefel Disgybl. Efallai y byddant ychydig yn wahanol i'r hyn a arsylwyd yn ystod yr arolygiad.

Mae gwybodaeth ychwanegol ar gael o wefan Llywodraeth Cymru, Fy Ysgol Leol: Fy Ysgol Leol (gov.wales)

a. Mae'r term 'anghenion addysg arbennig' yn cael ei ddefnyddio i ddisgrifio disgyblion sydd ar gofrestr AAA yr ysgol.

## Trosolwg

Mae rhan fwyaf o ddisgyblion yn mwynhau eu hamser yn yr ysgol gynhwysol a chartrefol hon, sy’n hyrwyddo’u lles yn effeithiol. Mae bron bob disgybl yn gwrtais ac yn barchus o’i gilydd, staff ac ymwelwyr. Mae hyn yn nodwedd gref o’r ysgol.

Mae’r staff yn adnabod y disgyblion yn dda. Maent yn darparu ystod o weithgareddau ysgogol sy’n ennyn diddordeb y rhan fwyaf o’r disgyblion yn llwyddiannus. Maent yn gofyn cwestiynau treiddgar sy’n effeithiol wrth adalw’r dysgu blaenorol a datblygu medrau meddwl y disgyblion. Ar gychwyn thema newydd, mae athrawon yn cynnig cyfleoedd i’r disgyblion gyfrannu at yr hyn yr hoffent ddysgu. Mae hyn yn hybu diddordeb y disgyblion yn eu gwaith ac yn rhoi cyfle iddynt berchnogi’r themâu dysgu. Mae staff yn cynnig adborth pwrpasol ar lafar sy’n galluogi’r disgyblion i adnabod gwallau sillafu ac atalnodi yn eu gwaith. Er hyn, nid yw’r adborth bob amser yn cynnig cyfleoedd i ddisgyblion, yn enwedig y rhai hŷn,  adnabod a gweithredu ar y camau nesaf yn eu dysgu.

Mae’r disgyblion yn cael cyfleoedd bwriadus i ddatblygu eu medrau ar draws y meysydd dysgu a phrofiad gan gynnwys eu medrau llythrennedd, rhifedd a digidol. O ganlyniad, mae llawer o ddisgyblion yn gwneud cynnydd cadarn wrth ddatblygu eu medrau dros amser. Fodd bynnag, mae tueddiad i athrawon or-gyfarwyddo’r dysgu. O ganlyniad, nid yw disgyblion yn cael cyfleoedd digon pwrpasol o fewn y gweithgareddau dysgu i ddatblygu eu medrau yn gynyddol annibynnol.

Mae’r ymdeimlad o waith tîm yn gryf ar draws yr ysgol. Mae’r pennaeth yn cael ei chefnogi gan dîm bach o staff a chorff llywodraethol sy’n angerddol am yr ysgol. Gyda’i gilydd, maent yn cydweithio’n frwd i adnabod cryfderau’r ysgol a gweithredu ar y meysydd sydd angen eu gwella. Mae ffocws cadarn yn cael ei roi ar ddatblygu medrau Cymraeg disgyblion sy’n cael effaith gadarnhaol ar godi safon Cymraeg llawer o ddisgyblion. Mae arweinwyr a staff yn darparu gwybodaeth i rieni am ddigwyddiadau ac achlysuron o fewn yr ysgol. Er hyn, nid yw’r dulliau cyfathrebu yn ddigon effeithiol bob amser, ac nid yw rhieni’n  derbyn digon o wybodaeth amserol am gynnydd eu plant nac er mwyn cefnogi, cynnal a gwella presenoldeb eu plant.

## Argymhellion

- A1 Darparu gweithgareddau sy’n cefnogi disgyblion i ymestyn eu medrau hyd eithaf eu gallu wrth eu cymhwyso mewn gweithgareddau dysgu annibynnol
- A2 Darparu adborth i ddisgyblion sy’n eu galluogi i adnabod a gweithredu ar y camau nesaf yn eu dysgu
- A3 Cryfhau dulliau cyfathrebu rhwng yr ysgol a’r cartref, fel bod rhieni’n  derbyn gwybodaeth yn amserol am gynnydd eu plant a chefnogaeth i wella’u presenoldeb

## Beth sy’n digwydd nesaf

Bydd yr ysgol yn llunio cynllun gweithredu i fynd i’r afael â’r argymhellion o’r arolygiad.

## Prif ganfyddiadau

### Dysgu

Mae llawer o ddisgyblion yn dechrau’r ysgol gyda medrau cyfathrebu Cymraeg isel. O’r mannau cychwyn hyn, mae’r rhan fwyaf o ddisgyblion, gan gynnwys y rhai sy’n gymwys am brydau ysgol am ddim a’r rhai sydd ag anghenion dysgu ychwanegol (ADY), yn gwneud cynnydd cadarn mewn ystod eang o fedrau.

Ym mlynyddoedd is yr ysgol, mae medrau llafar Cymraeg llawer o ddisgyblion yn datblygu’n dda. Maent yn defnyddio ystod addas o eirfa er mwyn ymestyn eu sgyrsiau, er enghraifft wrth ddisgrifio pwysigrwydd bod yn garedig gyda ‘Wali’ y pyped. Mae bron bob disgybl yn gwrando’n astud mewn sesiynau stori ac wrth ddilyn cyfarwyddiadau athrawon. Wrth symud drwy’r ysgol, mae medrau llafar llawer o ddisgyblion yn datblygu’n gadarn yn y ddwy iaith. Maent yn siarad Cymraeg yn hyderus, er enghraifft wrth ddefnyddio geirfa gyfoethog i ddisgrifio’r tywydd fel rhan o’u thema. Maent yn mynegi eu barn yn gynyddol hyderus gan ddefnyddio ystod o eirfa addas, er enghraifft wrth drafod rhinweddau gwahanol bontydd yr ardal.

Mae llawer o’r disgyblion ieuengaf yn defnyddio eu gwybodaeth ffonolegol yn hyderus wrth iddynt ddarllen geiriau syml mewn sesiynau iaith. Wrth iddynt ddatblygu eu medrau, maent yn darllen ar goedd yn gynyddol hyderus wrth ddefnyddio ystod o dechnegau darllen. Maent yn trafod testun syml yn synhwyrol, gan gyfeirio at gymeriadau o fewn y llyfrau maent yn eu darllen. Ar frig yr ysgol, mae’r rhan fwyaf o ddisgyblion yn darllen yn gynyddol hyderus. Maent yn darllen ystod o destunau yn y ddwy iaith gan ynganu geiriau anghyfarwydd yn gywir, gan amlaf. Maent yn defnyddio ystod o dechnegau effeithiol i adnabod geirfa anghyfarwydd, er enghraifft wrth ddarllen testun am ddinosoriaid. Maent yn darllen, dadansoddi a chrynhoi cynnwys testunau ffeithiol yn bwrpasol, er enghraifft wrth ddysgu am fywyd Jemeima Nicholas.

Mae medrau ysgrifennu cynnar llawer o ddisgyblion yn datblygu’n dda. Gyda chefnogaeth staff, mae’r disgyblion ieuengaf yn dechrau ysgrifennu brawddegau syml gan ddefnyddio geirfa ddisgrifiadol, er enghraifft wrth ysgrifennu stori o’u hoff anifail. Erbyn Blwyddyn 2, maent yn defnyddio berfau ac ansoddeiriau syml yn hyderus i gyfoethogi testun, er enghraifft wrth ysgrifennu am stori Gelert y ci. Mae rhan fwyaf o’r disgyblion hŷn yn ysgrifennu mewn ystod ddiddorol o ffurfiau pwrpasol yn y ddwy iaith. Maent yn defnyddio patrymau brawddeg yn gynyddol gywir ac yn cynnwys ansoddeiriau diddorol er mwyn cyfoethogi eu gwaith, er enghraifft wrth ysgrifennu ymson am gymeriadau o chwedl y Brenin March.

Mae llawer o’r disgyblion ieuengaf yn defnyddio strategaethau rhif yn gynyddol gywir ac mae ganddynt afael da o ffeithiau rhif. Mae llawer o ddisgyblion yn hyderus wrth

adnabod enwau a phriodweddau siapiau 2D ac wrth lunio tablau a graffiau syml, er enghraifft i ddangos hoff liw disgyblion y dosbarth. Ym mlynyddoedd uwch yr ysgol, mae gan y rhan fwyaf o ddisgyblion ddealltwriaeth gadarn o'r ffeithiau rhif a dulliau rhifo. Erbyn Blwyddyn 6, mae gan y rhan fwyaf o ddisgyblion ddealltwriaeth gadarn o rifau negyddol, er enghraifft wrth fesur y gwahaniaeth mewn tymheredd rhwng dwy wlad. Mae ganddynt ddealltwriaeth dda o siâp a gofod, er enghraifft wrth ddod o hyd i arwynebedd a pherimedr siapiau safonol ac ansafonol.

Mae medrau digidol llawer o'r disgyblion ieuengaf yn datblygu'n dda. Maent yn defnyddio llechen gyfrifiadurol yn fwriadus wrth gofnodi ac arbed eu gwaith. Maent yn hyderus wrth ddefnyddio ystod o apiau, er enghraifft wrth greu animeiddiad syml o gymeriad dychmygus. Wrth i ddisgyblion symud drwy'r ysgol, mae medrau digidol y rhan fwyaf yn adeiladu'n briodol ar eu dysgu blaenorol. Maent yn defnyddio'r rhyngrwyd i chwilio am wybodaeth ac yn defnyddio taenlenni'n llwyddiannus i gyflwyno eu canfyddiadau, er enghraifft wrth gyfrifo'r pellter mae te yn teithio ar draws y byd.

Ar draws yr ysgol, mae'r disgyblion yn cymhwyso eu medrau llythrennedd a rhifedd at wahanol bwrpasau yn llwyddiannus. Er enghraifft, mae'r disgyblion ieuengaf yn ysgrifennu rheolau i'w cadw'n ddiogel fel rhan o'u gwaith iechyd a lles. Mae'r disgyblion hŷn yn datblygu eu medrau ysgrifennu estynedig yn effeithiol, er enghraifft wrth ysgrifennu llythyr ffurfiol i drigolion y pentref yn diolch am fynychu prynhawn coffi MacMillan. Maent yn datblygu eu dealltwriaeth o arian ac elw drwy'r cynllun menter 'tyfu pum punt'.

Ar draws yr ysgol, mae medrau creadigol y rhan fwyaf o ddisgyblion yn datblygu'n effeithiol. Maent yn defnyddio ystod dda o offer ac adnoddau er mwyn efelychu dulliau celf artistiaid enwog o Gymru. Maent yn mwynhau perfformio mewn cyngherddau ysgol i'r gymuned leol, er enghraifft yn y gwasanaeth diolchgarwch yn yr eglwys.

### Lles ac agweddau at ddysgu

Mae llawer o ddisgyblion yn mwynhau mynychu'r ysgol ac yn falch ohoni a'i chymuned. Maent yn teimlo'n ddiogel ac yn gwybod at bwy i droi petai rywbeth yn eu poeni. Maent yn teimlo bod y staff yn eu trin yn deg ac yn ystyried rhai o'u syniadau. Mae ymddygiad bron bob disgybl mewn dosbarthiadau ac o amgylch yr ysgol yn ardderchog ac maent yn trin oedolion ac ymwelwyr gyda pharch a chwrteisi. Mae bron bob un yn gwrtais ac ystyriol. Mae'r disgyblion hynaf yn cymryd gofal o'r rhai ieuengaf yn naturiol ac aeddfed. Mae hyn yn nodwedd gref o'r ysgol.

Mae'r rhan fwyaf o ddisgyblion yn dangos agweddau cadarn at eu dysgu ac yn datblygu'n ddysgwyr gweithgar a chydwybodol. Maent yn gwrando'n astud ar gyflwyniadau ac yn gweithio'n gyson dda fel unigolion, mewn parau ac mewn grwpiau bychain. Maent yn gweithio'n gytûn , phan gânt y cyfle, yn ymroi'n  frwdfrydig i ymgymryd â heriau. Er hyn, nid yw disgyblion hŷn yr ysgol bob amser yn cael cyfleoedd pwrpasol i weithio a datblygu eu medrau yn gynyddol annibynnol.

Mae llawer o ddisgyblion yn mwynhau cyfrannu at yr hyn maent eisiau ei ddysgu o fewn eu themâu tymhorol. Trwy ddefnydd o'r waliau cynllunio a'r trafodaethau ar ddechrau thema newydd, mae disgyblion yn rhannu eu syniadau ac yn ychwanegu

cwestiynau ynglŷn â'r hyn maent eisiau ei ddysgu. O ganlyniad, mae llawer o ddisgyblion yn teimlo bod staff yn gwrando ar eu syniadau ac yn eu hystyried wrth gynllunio'r gweithgareddau dysgu ar eu cyfer. Mae hyn yn cyfannu'n gadarn at sicrhau bod llawer o ddisgyblion yn dangos boddhad a diddordeb yn eu gwaith.

Mae mwyafrif y disgyblion yn darllen dros eu gwaith ac yn cywiro rhai o'r gwallau yn synhwyrol, er enghraifft o ran sillafu ac atalnodi. Maent yn ymateb yn briodol i adborth llafar staff; er hyn, nid ydynt bob amser yn deall beth yw'r camau nesaf er mwyn gwella cynnwys eu gwaith.

Mae'r disgyblion sy'n aelodau o'r cyngor ysgol yn mwynhau'r cyfleoedd a gânt i ddylanwadu ar rai agweddau o fywyd a gwaith yr ysgol. Er enghraifft, yn ddiweddar, maent wedi bod yn flaenllaw wrth benderfynu ar weithgareddau er mwyn hybu defnydd y rhieni o'r Gymraeg o fewn y cartref. Er hyn, nid yw'r disgyblion yn cael cyfleoedd pwrpasol i drafod eu syniadau heb oruchwyliaeth ac ymyrraeth oedolion. O ganlyniad, nid ydynt o'r farn eu bod yn cael digon o gyfle i leisio eu barn a dylanwadu ar agweddau pwysig o'r ddarpariaeth o fewn yr ysgol, gan gynnwys cyfleoedd i benderfynu'n annibynnol ar sut i gofnodi eu gwaith neu ba offer yr hoffent eu defnyddio.

Mae gan bron bob disgybl ddealltwriaeth gadarn o bwysigrwydd bwyta ac yfed yn iach ac maent yn deall effaith ymarfer corff rheolaidd ar eu hiechyd. Maent yn cyfranogi'n frwdfrydig mewn gweithgareddau corfforol, gan gynnwys gweithgareddau rhedeg dyddiol a gemau buarth yn ystod amseroedd egwyl.

Mae'r rhan fwyaf o ddisgyblion yn datblygu i fod yn ddinasyddion moesegol a gwybodus. Mae ganddynt ddealltwriaeth gadarn o'r gwahaniaeth rhwng da a drwg a phwysigrwydd  trin pawb yn gyfartal. Maent yn dangos empathi a thrugaredd at eraill, er enghraifft wrth drafod yr heriau sy'n wynebu ffoaduriaid yn ystod adegau o ryfel. Mae'r rhan fwyaf o ddisgyblion hynaf yr ysgol yn deall  pwysigrwydd gofalu am y blaned, er enghraifft yr angen i leihau gwastraff drwy ailgylchu yn yr ysgol ac o fewn y cartref.

Mae'r rhan fwyaf o ddisgyblion yn deall  pwysigrwydd  mynychu'r ysgol yn rheolaidd. Er hyn, mae presenoldeb ychydig o ddisgyblion yn is na'r disgwyl.

### Addysgu a phrofiadau dysgu

Mae gan bob aelod o staff berthynas weithio ofalgar a chadarn â'r disgyblion sy'n cefnogi eu lles a'u haddysg yn llwyddiannus. Mae'r athrawon yn darparu amgylchedd ddysgu bwrpasol sy'n hybu gwerthoedd ac egwyddorion y cwricwlwm newydd i Gymru yn llwyddiannus.

Mae'r staff yn cynllunio ystod o brofiadau diddorol sy'n darparu cyfleoedd buddiol i'r disgyblion ddatblygu eu medrau, gwybodaeth a dealltwriaeth drwy'r ystod o feysydd dysgu a phrofiad. Fel rhan o'u thema 'Y Goedwig', mae'r disgyblion ieuengaf yn cael cyfleoedd buddiol i ymweld â'u hardal leol wrth gymharu coed hynafol y pentref. Drwy hyn, maent wedi dwysáu eu dealltwriaeth o briodweddau gwahanol fathau o goed. Mae'r disgyblion hŷn yn astudio hanes pontydd pentref Beddgelert sy'n ymestyn eu dealltwriaeth o'u hardal leol yn llwyddiannus. Mae'r staff yn manteisio ar gyfleoedd bwriadus i gyfoethogi gweithgareddau'r cwricwlwm drwy wahodd ymwelwyr i'r ysgol.

Er enghraifft, fel rhan o ddatblygu dealltwriaeth y disgyblion o draddodiadau Cymru, daeth enillydd coron yr Eisteddfod Genedlaethol i'r ysgol i drafod ei waith a'i lwyddiant gyda'r disgyblion. Mae dealltwriaeth y rhan fwyaf o'r disgyblion o dreftadaeth a diwylliant Cymru yn datblygu'n dda.

Mae athrawon yn defnyddio ystod o ddulliau holi treiddgar sy'n effeithiol wrth adalw'r dysgu blaenorol a llywio cyfeiriad y dysgu'n bwrpasol. Mae staff yn ystyried syniadau disgyblion yn synhwyrol wrth gynllunio ystod o weithgareddau bwriadus. O ganlyniad, mae agweddau'r rhan fwyaf o ddisgyblion at eu dysgu yn gadarn. Mae athrawon yn cynnig adborth llafar pwrpasol sy'n cefnogi'r disgyblion i adnabod camgymeriadau yn eu gwaith, gan gynnwys gwallau sillafu ac atalnodi. Fodd bynnag, nid yw'r adborth bob tro'n  ddigon penodol ar gyfer y gweithgareddau dysgu. O ganlyniad, nid yw'r disgyblion ym mlynyddoedd uwch yr ysgol yn rhoi sylw ystyrlon i wella'r agweddau mwyaf pwysig o'u gwaith.

Mae athrawon yn darparu cyfleoedd cyfoethog i'r disgyblion ieuengaf gymhwyso eu medrau llythrennedd yn fwriadus, er enghraifft wrth ysgrifennu cyfres o frawddegau i ddisgrifio eu hoff anifail. Ym mlynyddoedd uwch yr ysgol, mae'r staff yn datblygu medrau disgyblion yn effeithiol, er enghraifft wrth ysgrifennu llythyr i drigolion y pentref yn diolch iddynt am fynychu'r prynhawn coffi. Mae athrawon yn darparu ystod effeithiol o weithgareddau i ddisgyblion ddatblygu eu medrau rhifedd a digidol, er enghraifft wrth fesur hyd ac uchder pontydd lleol cyn cyflwyno eu canfyddiadau mewn taenlen. Er hyn, ar adegau, mae tueddiad i staff or-gyfarwyddo'r dysgu ac nid ydynt bob amser yn cynnig cyfleoedd pwrpasol i'r disgyblion hŷn ddatblygu eu medrau yn gynyddol annibynnol. Mae hyn yn llesteirio gallu'r disgyblion i benderfynu ar y ffordd o gyflwyno eu gwaith a'r offer i'w defnyddio.

Mae staff yn gweithio'n frwdfrydig ac angerddol i loywi Cymraeg y disgyblion. Maent yn defnyddio caneuon a symudiadau yn effeithiol fel rhan o'u dulliau cyflwyno, gan atgyfnerthu geirfa a phatrymau iaith yn llwyddiannus. Mae staff yn siarad Cymraeg yn fedrus a chywir ac yn annog y disgyblion i ddefnyddio Cymraeg sy'n naturiol i'w hardal leol. O ganlyniad, mae llawer o ddisgyblion yn gwneud cynnydd cadarn yn eu medrau Cymraeg. Yn ogystal, caiff medrau iaith disgyblion eu datblygu'n effeithiol yn Saesneg, ac ar lefel briodol yn Ffrangeg wrth i'r disgyblion symud drwy'r ysgol.

## Gofal, cymorth ac arweiniad

Mae'r ysgol yn gymuned ofalgar a chynhwysol sy'n hyrwyddo ymddygiad da, cwrteisi a pharch ymysg disgyblion. Mae perthynas waith agos ac effeithiol rhwng staff a disgyblion a chaiff hyn ei adlewyrchu yn agweddau positif y rhan fwyaf o ddisgyblion at fywyd a gwaith yr ysgol.

Mae cyfleoedd buddiol i ddisgyblion datblygu eu medrau corfforol. Trwy sesiynau ymarfer corff wythnosol a'r gemau ac adnoddau buarth a ddarperir i ddisgyblion yn ystod amseroedd egwyl, maent yn datblygu eu medrau corfforol yn effeithiol.

Yn ddiweddar, mae'r ysgol wedi adnabod yr angen i wella'r ddarpariaeth er mwyn sicrhau bod disgyblion yn cael cyfleoedd i drafod yr hyn sy'n eu pryderu. Mae'r sesiynau amser cylch wythnosol a'r 'Blwch Pryderon' yn effeithiol wrth sicrhau bod disgyblion yn cael cyfle i drafod materion sy'n bwysig iddynt. Mae gan arweinwyr drefniadau cadarn i adnabod disgyblion sydd ag ADY o oedran cynnar. Mae

athrawon a chynorthwywyr yn cydweithio'n gyson â rhieni i ddatblygu cynlluniau unigol i gefnogi'r disgyblion hyn i wneud cynnydd yn eu medrau. Mae cynorthwywyr yn cefnogi anghenion unigol disgyblion yn effeithiol drwy ddarparu ystod o raglenni er mwyn gwella medrau llythrennedd y disgyblion. Mae hyn yn effeithiol wrth sicrhau bod y rhan fwyaf o ddisgyblion yn gwneud cynnydd cadarn yn eu dysgu.

Mae athrawon yn codi ymwybyddiaeth disgyblion o bwysigrwydd bod yn ddinasyddion gofalgar a chydwybodol yn dda trwy weithgareddau sy'n cefnogi elusennau cenedlaethol, er enghraifft wrth godi arian at drigolion llai ffodus mewn gwledydd tlawd. Mae'r staff yn hyrwyddo datblygiad ysbrydol a moesol disgyblion yn llwyddiannus. O fewn gwasanaethau ysgol gyfan a sesiynau amser cylch wythnosol, darperir cyfleoedd i ddisgyblion fyfyrio ar eu gwerthoedd a'u credoau eu hunain a dysgu am bwysigrwydd  parchu eraill.

Mae'r staff yn darparu cyfleoedd priodol i ddisgyblion leisio eu barn am rai agweddau o'r ddarpariaeth, gan gynnwys cyfleoedd pwrpasol iddynt drafod eu syniadau ar ddechrau thema newydd. Er hyn, nid yw arweinwyr yn rhoi cyfleoedd cyson i ddisgyblion y cyngor ysgol drafod eu syniadau heb orgyfarwyddyd. O ganlyniad, nid yw'r disgyblion yn cael cyfleoedd i feddwl yn annibynnol am ba elfennau o'r ddarpariaeth yr hoffent ddylanwad arnynt.

Mae athrawon yn trefnu nifer o ymweliadau buddiol i'r disgyblion sy'n hybu eu diddordeb am hanes, diwylliant a'u cymuned yn llwyddiannus. Er enghraifft, fel rhan o ddathliadau diwrnod Owain Glyndŵr, mae athrawon yn trefnu taith hanesyddol i'r ysgol gyfan, gan ymweld â chastell Harlech. Mae hyn yn effeithiol wrth ddwysáu dealltwriaeth y disgyblion o gymeriadau pwysig yn hanes Cymru a'u heffaith ar y genedl. Fel rhan o'r ddarpariaeth ar gyfer datblygu eu medrau creadigol, caiff disgyblion gyfleoedd pwrpasol i ymgymryd â nifer o weithgareddau celfyddydol, gan gynnwys bod yn rhan o gôr 'Anthem Eifionydd' a grŵp pop 'Dreigiau Beddgel' yn creu cân gydag enwogion lleol.

Mae arweinwyr yn sicrhau bod diwylliant cryf o ddiogelu yn treiddio trwy'r ysgol. Er hyn, nid yw arweinwyr yn defnyddio dulliau cyfathrebu yn ddigon effeithiol gyda rhieni ychydig o ddisgyblion sydd â phresenoldeb isel.

### Arweinyddiaeth a rheolaeth

Mae gan y pennaeth weledigaeth gadarn yn seiliedig ar ddarparu cyfleoedd pwrpasol i ddisgyblion ddatblygu eu medrau mewn awyrgylch hapus a diogel. Mae'r staff yn cefnogi gwaith y pennaeth yn effeithiol ac mae'r ymdeimlad o waith tîm yn treiddio drwy'r ysgol. Mae'r pennaeth yn dyrannu cyfrifoldebau yn effeithiol ymysg y staff, er enghraifft, gyda'r cynorthwywr yn arwain ymyraethau er mwyn gwella medrau llythrennedd disgyblion. Mae gan arweinwyr drefniadau cadarn er mwyn cefnogi datblygiad proffesiynol staff, sy'n cysylltu'n bwrpasol â blaenoriaethau gwella'r ysgol a'u targedau unigol.

Mae strategaeth gadarn ar gyfer gwella medrau Cymraeg disgyblion a'u dealltwriaeth o ddiwylliant a threftadaeth Cymru. O ganlyniad, mae llawer o ddisgyblion yn siarad Cymraeg yn hyderus o amgylch yr ysgol. Mae arweinwyr yn defnyddio'r grant datblygu disgyblion yn effeithiol, er enghraifft er mwyn cefnogi disgyblion i wella eu medrau.

Yn ddiweddar, mae llawer o aelodau newydd wedi ymuno â'r corff llywodraethol. O ganlyniad, mae'r ysgol wedi adnabod yn ei flaenoriaethau gwella yr angen i gynnal hyfforddiant ac anwytho'r llywodraethwyr newydd er mwyn gwella eu dealltwriaeth o'u rôl wrth gefnogi'r ysgol. Mae'r corff llywodraethol yn derbyn adroddiadau priodol yn dymhorol gan y pennaeth sy'n canolbwyntio ar y cynnydd yn erbyn y blaenoriaethau o fewn y cynllun gwella. Mae llywodraethwyr yn herio cynnydd yr ysgol yn erbyn y blaenoriaethau gwella gan ofyn cwestiynau treiddgar mewn modd amserol. Drwy gyfarfodydd is-banel, mae aelodau'r corff yn cael cyfleoedd buddiol i gyfrannu at faterion eraill, gan gynnwys cyllideb yr ysgol a materion iechyd a diogelwch yn ymwneud â'r safle. Mae aelodau o'r corff yn ymweld â'r ysgol yn rheolaidd gan gynnal teithiau dysgu a mynychu achlysuron o fewn y tymor. Yn dilyn yr ymweliadau, maent yn adrodd ar fedrau'r disgyblion a'r ddarpariaeth i weddill y llywodraethwyr mewn cyfarfodydd llawn. O ganlyniad, mae gan y corff llywodraethol ddealltwriaeth dda o gryfderau'r ysgol a'r meysydd i'w gwella.

Mae arweinwyr yn sicrhau diwylliant o ddiogelu disgyblion ac mae gan bob aelod o staff ddealltwriaeth gadarn o'r gweithdrefnau. Mae'r corff llywodraethol yn sicrhau bod gan yr ysgol drefniadau priodol ar gyfer hyrwyddo bwyta ac yfed yn iach, er enghraifft wrth annog disgyblion i fwyta ffrwyth ac yfed dŵr yn ystod y dydd.

Lle mae'r arfer ar ei gorau, mae staff yn cydweithio'n effeithiol â theuluoedd er mwyn rhannu gwybodaeth bwysig gyda rheini, er enghraifft am ddigwyddiadau o fewn yr ysgol ac am gynnydd eu plant. Mae hyn yn effeithiol wrth gynorthwyo rhieni i wybod sut i helpu wrth ddatblygu medrau eu plant o fewn y cartref. Er hyn, nid oes cysondeb ar draws yr ysgol wrth rannu gwybodaeth gyda rhieni, ac o ganlyniad, nid yw pob rhiant yn derbyn gwybodaeth ddigonol mewn modd amserol, er enghraifft am gynnydd eu plant.

Mae gan yr ysgol berthynas agos iawn â'r gymuned. Yn ddiweddar, derbyniodd yr ysgol grant gan 'Gymdeithas Gwynant' i ddatblygu gardd yr ysgol. Fel rhan o hyn, mae aelodau o'r gymuned yn mynychu'r ysgol i weithio gyda'r disgyblion i gynnal gweithgareddau garddio o fewn y flwyddyn.

## Sail dystiolaeth yr adroddiad

Cyn yr arolygiad, bu arolygwyr:

- yn dadansoddi deilliannau o'r holiadur i rieni a holiadur i ddisgyblion, ac ystyried barn athrawon, staff a'r corff llywodraethol/aelodau'r pwyllgor rheoli' trwy eu hymatebion i'w holiadur

Yn ystod yr arolygiad, bu arolygwyr:

- yn cynnal cyfarfod â rhieni i glywed eu barn am yr ysgol a'i heffeithiolrwydd
- yn cyfarfod â'r pennaeth, y llywodraethwyr, uwch arweinwyr ac arweinwyr canol ac athrawon unigol i werthuso effaith gwaith yr ysgol
- yn cyfarfod â disgyblion i drafod eu gwaith, gwrando arnynt yn darllen a chael eu barn am agweddau amrywiol ar eu hysgol
- yn cyfarfod â grwpiau o ddisgyblion mewn rolau arwain, fel cynrychiolwyr y cyngor ysgol a'r pwyllgor eco
- yn ymweld â sampl eang o ddosbarthiadau, gan gynnwys grwpiau cymorth dysgu, a'r ganolfan adnoddau arbenigol (lle y bo'n briodol), ac yn ymgymryd ag amrywiaeth o deithiau dysgu i arsylwi disgyblion yn dysgu ac i weld staff yn addysgu mewn amrywiaeth o leoliadau, gan gynnwys ystafelloedd dosbarth, grwpiau cymorth (lle y bo'n briodol), ac mewn ardaloedd awyr agored
- yn ymweld â'r ganolfan adnoddau arbenigol yn yr ysgol i weld dysgu'r disgyblion (lle y bo'n briodol)
- yn arsylwi ac yn siarad â disgyblion amser cinio ac amser egwyl, ac mewn sampl o glybiau ar ôl ysgol
- yn mynychu gwasanaethau ac addoli dyddiol ar y cyd
- yn edrych yn fanwl ar brosesau hunanwerthuso'r ysgol
- yn ystyried cynllun gwella'r ysgol ac yn edrych ar dystiolaeth i ddangos pa mor dda roedd yr ysgol wedi bwrw ymlaen â gwelliannau a gynlluniwyd
- yn craffu ar amrywiaeth o ddogfennau'r ysgol, gan gynnwys gwybodaeth am asesu a chynnydd disgyblion, cofnodion cyfarfodydd staff a'r corff llywodraethol, gwybodaeth am les disgyblion, gan gynnwys diogelu disgyblion, a chofnodion hyfforddiant a datblygiad proffesiynol staff

Ar ôl yr arolygiad ar y safle a chyn cyhoeddi'r adroddiad, fe wnaeth Estyn:

- adolygu canfyddiadau'r arolygiad ochr yn ochr â'r dystiolaeth ategol gan y tîm arolygu er mwyn dilysu, safoni a sicrhau ansawdd yr arolygiad

## Copïau o'r adroddiad

Mae copïau o'r adroddiad hwn ar gael gan yr ysgol ac ar wefan Estyn (www.estyn.llyw.cymru)

Lluniwyd yr adroddiad hwn yn unol ag Adran 28 Deddf Addysg 2005.

Cymerwyd pob rhagofal posibl i sicrhau bod y wybodaeth yn y ddogfen hon yn gywir adeg ei chyhoeddi. Dylid cyfeirio unrhyw ymholiadau neu sylwadau ynglŷn â'r ddogfen hon/cyhoeddiad hwn at:

Yr Adran Gyhoeddiadau
Estyn
Llys Angor, Heol Keen
Caerdydd
CF24 5JW    neu drwy anfon e-bost at cyhoeddiadau@estyn.llyw.cymru

Mae'r cyhoeddiad hwn a chyhoeddiadau eraill gan Estyn ar gael ar ein gwefan: www.estyn.llyw.cymru: Estyn

**Cyfieithwyd y ddogfen hon gan Trosol (Cymraeg i Saesneg).**

© Hawlfraint y Goron 2024: Gellir ailddefnyddio'r adroddiad hwn yn ddi-dâl mewn unrhyw fformat neu gyfrwng ar yr amod y caiff ei ailddefnyddio'n gywir ac na chaiff ei ddefnyddio mewn cyd-destun camarweiniol. Rhaid cydnabod y deunydd fel hawlfraint y Goron a rhaid nodi teitl yr adroddiad penodol.

Dyddiad cyhoeddi: 18/01/2024